TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU

# Adolygiad Blynyddol 2006/07

## Cynnwys


3 Rhagair
4 Yr hyn mae Trwyddedu Teledu yn ei wneud
6 Gwneud y gorau o refeniw ffi'r drwydded
8 Gwybodaeth a gorfodaeth
10 Gwasanaeth cwsmeriaid
11 Hoffem glywed gennych

# A oeddech chi’n gwybod bod Trwyddedu Teledu:

- Yn defnyddio cronfa ddata o **29.5m o gyfeiriadau**
- Wedi derbyn **1.3m o eitemau o ohebiaeth ysgrifenedig** y llynedd, a 22.5% o’r rhain yn negeseuon e-bost; a thrafod **11.7m o alwadau ffôn**
- Yn dal **1,000** y dydd ar gyfartaledd, **o bobl sy’n osgoi talu** am y **drwydded**
- Wedi lansio **canfodydd i’w ddal yn y llaw** sydd tua 21cm o hyd, ac sy’n gallu cynnal **3,000 o ymweliadau** cyn i’r batri ddiffodd

# Rhagair

Bu rhai datblygiadau mawr yn y modd mae Trwyddedu Teledu yn gweinyddu casglu a gorfodi ffi'r drwydded deledu ac rwy'n falch i fanylu ynglŷn â'r datblygiadau yn yr Adolygiad Blynyddol hwn.

Y llynedd casglwyd dros £3.2bn mewn refeniw trwydded teledu gan Trwyddedu Teledu, cynnydd o £139m ar y flwyddyn flaenorol. Fel sefydliad maeTrwyddedu Teledu yn anelu at fod mor gost effeithiol ag y bo modd a llynedd llwyddwyd i ostwng y gost flynyddol o gasglu o 4.9% i 4.1% o gyfanswm y refeniw a gasglwyd.

Mae'r newid i rwydwaith PayPoint ar gyfer holl wasanaethau dros y cownter Trwyddedu Teledu yn golygu y gall y rheiny sy'n talu ffi'r drwydded brynu trwydded deledu mewn mwy o fannau'n lleol, sydd ar agor yn hwyr fel rheol. Roedd rheoli symud oddeutu naw miliwn sy'n talu ffi'r drwydded at ddulliau newydd o dalu yn newid mawr i Trwyddedu Teledu. Mae'n dda gennyf ddweud bod y gwasanaethau newydd yn gweithio'n dda i'r rhan fwyaf o bobl gyda chyfartaledd o tua 2.5m o drafodion Trwyddedu Teledu y mis mewn cyfleusterau PayPoint. Fodd bynnag, sylweddolwn fod newid yn anodd i rai a dyna pam ein bod yn awyddus i gysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â'r ffordd orau i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithio yn eu hachos hwy. Mae PayPoint yn ymateb drwy agor cyfleusterau ychwanegol lle mae'r angen fwyaf.

Y llynedd dechreuwyd anfon trwyddedau allan drwy'r e-bost, gan wella cyfleustra i'r talwyr trwyddedau a gostwng costau'r post, y papur a chostau argraffu. Bwriadwn ymestyn ein cyfathrebiadau ar-lein drwy gynnig, er enghraifft, e-neges atgoffa. Mae cynnwys technolegau newydd wrth galon ymgyrch Trwyddedu Teledu i ddarparu gwasanaethau cyfleus a chost effeithiol i'r cyhoedd a byddwn yn parhau i ddatblygu'r mentrau hyn.

Mae amcangyfrif yr achosion o osgoi talu ffi'r drwydded wedi codi ychydig eleni o 4.7% hyd 5.1%. Mae hyn yn rhannol oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth yn ddiweddar mewn ardaloedd trefol yn bennaf a thai aml-ddeiliaid, lle mae'r achosion osgoi yn uwch a mwy o'r boblogaeth heb gartrefi parhaol. Mae'n well gennym bob tro fod pobl yn talu nac yn cael eu herlyn, ond byddwn yn mynd ar ôl rhai sy'n gwrthod talu. Y llynedd daliwyd ar gyfartaledd 1,000 y dydd o blith y rheiny a oedd yn osgoi talu. Mae'r mwyafrif gonest yn talu a chododd nifer y trwyddedau mewn grym i'r lefelau uchaf erioed yn ystod y flwyddyn. Rydym beunydd yn datblygu technoleg newydd i frwydro yn erbyn osgoi talu am drwydded teledu ac yn edrych o hyd ar ffyrdd o sicrhau bod y gronfa ddata cyfeiriadau mor gywir ag y bo modd.

Cafwyd rhai newidiadau i reoliadau gweithredu Trwyddedu Teledu. Y rhai mwyaf nodedig yw'r cynlluniau talu ag arian parod, a oedd ar gael gynt dim ond i'r rheiny a dderbyniai fudd-daliadau ar sail incwm. Rydym wedi gweithio gyda chynghorwyr ariannol a grwpiau cymunedol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ynglŷn â'r newidiadau hyn yn cyrraedd y rheiny sydd o bosibl â diddordeb yn y dull hwn o dalu.

Mae ein hymgyrchoedd cyfathrebu a marchnata arloesol yn parhau i dderbyn cydnabyddiaeth y diwydiant marchnata. Unwaith yn rhagor, enillodd ymgyrch 'Dyw hi ddim yn ddoniol', ar gyfer myfyrwyr, nifer o wobrau. Mae gwobrau tebyg i'r rhain yn cydnabod llwyddiant Trwyddedu Teledu wrth gysylltu â'r cyhoedd yn y ffordd fwyaf priodol ac effeithiol.

Mae Trwyddedu Teledu mewn sefyllfa gref i symud ymlaen mewn amgylchedd sy'n newid yn gyson, wrth i'r BBC gychwyn ar ei Siarter newydd ac wrth i ffyrdd newydd o wylio'r teledu esblygu. Darparwn wasanaeth cost effeithiol, gan wneud y gorau o'r cyllid ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau'r BBC, wrth helpu mwy o bobl i gael y drwydded gywir.

Rwy'n gobeithio y cewch yr adolygiad hwn yn addysgiadol ac yn ddefnyddiol. Croesawn eich sylwadau ar y modd mae Trwyddedu Teledu yn gweithredu a cheir manylion ynglŷn â sut i gysylltu â ni ar dudalen 11 yr adolygiad hwn.

**Pipa Doubtfire**
Pennaeth Rheoli Refeniw, Trwyddedu Teledu y BBC

"...y llynedd llwyddwyd i ostwng y gost flynyddol o gasglu o 4.9% i 4.1% o gyfanswm y refeniw a gasglwyd."

# Yr hyn mae Trwyddedu Teledu yn ei wneud

**Ymgyrch lwyddiannus "Dyw hi ddim yn ddoniol" ar gyfer myfyrwyr**
Er mwyn adeiladu ar ymwneud myfyrwyr â Trwyddedu Teledu roedd ymgyrch 'Dyw hi ddim yn ddoniol' yn cynnwys cyfleoedd newydd a chreadigol a gynigiwyd trwy gyfryngau digidol er mwyn cael myfyrwyr i ddeall yn well am yr angen i brynu trwydded deledu. Roedd hyn yn cynnwys gwefan a anogai fyfyrwyr i lawr lwytho clipiau doniol a jôcs a'u hanfon ymlaen at gyd-fyfyrwyr a ffrindiau. Rhan o ymgyrch farchnata integredig Trwyddedu Teledu oedd y wefan, a ddefnyddiodd effaith gyfunol dros 30 o elfennau, gan gynnwys llythyrau at fyfyrwyr a'r cyhoedd a chysylltiadau cymunedol, i hybu gwerthiant trwyddedau teledu ymhlith myfyrwyr.

Enillodd Trwyddedu Teledu brif wobr 2007 yr Institute of Direct Marketing am yr ymgyrch. Barnwyd i'r rhaglen wneud "y cyfraniad strategol mwyaf eithriadol i lwyddiant busnes yn gyffredinol yn 2007." Mae hyn yn ychwanegol i'r ymgyrch ennill yr anrhydedd uchaf yng Ngwobrau Cymdeithas Ymgynghorwyr Cyfathrebu Marchnata (MCCA) ac yn ogystal, gael ei dewis yn Ymgyrch Cyfathrebu Integredig Orau am ei "chyfuniad ardderchog o greadigrwydd, cyfryngau a chanlyniadau eithriadol".

Enw masnachu, a ddefnyddir gan asiantau sydd o dan gytundeb â'r Awdurdod Trwyddedu (y BBC) i weinyddu casglu ffïoedd trwyddedau teledu ac i orfodi'r system trwyddedu teledu, yw "Trwyddedu Teledu" . Mae mwyafrif gweinyddiaeth Trwyddedu Teledu yn cael ei roi ar gontract i Capita Business Services Ltd, gyda chytundeb gweinyddiaeth cynlluniau talu ag arian parod yn cael ei roi i Revenues Management Services Ltd, a chytundeb gweithgareddau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus yn cael ei roi i Gonsortiwm AMV. Mae'r consortiwm yn cynnwys y pedwar cwmni canlynol: Abbott Mead Vickers BBDO Ltd, Fishburn Hedges Boys Williams Ltd, PHD Media Ltd a Proximity London Ltd. Awdurdod cyhoeddus yw'r BBC o safbwynt ei swyddogaethau trwyddedu a hwn yw'r corff sy'n cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol.

Ar hyn o bryd cost y drwydded deledu yw £135.50 am deledu lliw a £45.50 am deledu du a gwyn. MaeTrwyddedu Teledu yn rhoi gwybod i bobl am yr angen i brynu trwydded deledu. Mae'n anfon gair i atgoffa ynghylch adnewyddu trwyddedau ac yn prosesu ymholiadau, ceisiadau a thaliadau. Mae cynnal ein cronfa ddata hefyd yn allweddol, gan ddefnyddio'r dechnoleg i ganfod ac ymweld â phobl sydd efallai'n defnyddio teledu heb drwydded ddilys. Mae oddeutu 25m o drwyddedau teledu mewn grym, sy'n cynnwys 3.9m o drwyddedau rhad ac am ddim ar gyfer rhai dros eu 75 mlwydd oed ac oddeutu 40,000 o drwyddedau ar gyfer pobl sy'n derbyn consesiwn i'r deillion o 50%. Mae Trwyddedu Teledu yn anelu at wneud y gorau o refeniw ffi'r drwydded drwy gasglu'r ffi yn y modd fwyaf effeithiol o ran cost.

Fel arfer, anfonir nifer o lythyron i gyfeiriad sydd heb drwydded, yn atgoffa'r rhai sy'n byw yno am bwysigrwydd trwydded gywir ac yn cynnig gwybodaeth ynglŷn â'r ffyrdd niferus o dalu. Gellir cysylltu ag eiddo dros y ffôn hefyd, er mwyn holi a oes angen trwydded deledu yno. Os na cheir ateb, dewisir y cyfeiriad ar gyfer ymweliad gan swyddog ymholiadau. Ar gyfartaledd mae 1,000 o rheiny sy'n osgoi talu'n cael eu dal bob dydd. Yn ogystal mae ymweliadau'n datgelu a oes rhywun yn byw yn y cyfeiriad, a yw'n adfail, ac a oes teledu yn yr eiddo neu beidio.

Defnyddir offer canfod ar gyfer canfod y rhai sy'n osgoi talu, dim ond ar ôl ceisio gwneud hynny trwy ffyrdd eraill, sy'n fwy effeithiol o ran cost.

**Newidiadau i Trwyddedu Teledu**
Gwnaed y newidiadau canlynol i'r ffordd mae Trwyddedu Teledu yn gweinyddu ffi'r drwydded o ganlyniad i reoliadau newydd a ddaeth i rym o fis Ebrill 2007:

Cynllun Mynediad Taliadau Hawdd
Mae cynllun Mynediad Taliadau Hawdd, lle y gellir talu ffi'r drwydded ag arian parod, fesul rhandaliadau, nad oedd ar gael gynt ond i bobl a oedd yn derbyn un neu fwy o fudd-daliadau gwladol ar sail incwm, yn awr yn agored i unrhyw un.

Blychau pen set:
Bydd y rheiny sy'n gwylio teledu du a gwyn ac yn defnyddio blwch pen set digidol ond yn gorfod talu am drwydded du a gwyn yn awr (ni fydd hyn yn berthnasol i flychau pen set sy'n gallu recordio rhaglenni teledu).

Os nad ydych yn defnyddio offer derbyn teledu ni fydd angen trwydded arnoch; er enghraifft, os ydych yn defnyddio blwch pen set digidol neu offer derbyn teledu gyda system hi fi neu ryw ddyfais arall debyg nad yw ond yn gallu cynhyrchu neu recordio sain.

Consesiwn ar gyfer Llety Gofal Preswyl:
Mae cost trwydded deledu ar gyfer cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio a thai gwarchod o dan gynllun Llety Gofal Preswyl (ARC) wedi codi o £5.00 i £7.50 y flwyddyn fesul uned llety. Dyma'r codiad cyntaf ers 1988 ac mae'r tâl yn awr yn cwrdd â chost gweinyddu'r consesiwn.

Bydd pobl ar ymweliadau seibiant gofal tymor byr i gartrefi gofal nyrsio neu gartrefi preswyl sy'n elwa o'r cynllun ARC yn gallu elwa o'r consesiwn yn ogystal, nad oedd ond ar gael o'r blaen i breswylwyr amser llawn.*

Consesiwn i'r deillion:
Mae'r rheoliadau newydd yn ychwanegu, fel prawf o hawl cydnabyddedig, tystysgrif neu ddogfen a roddwyd gan neu ar ran ymddiriedolaeth y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon. Yn ogystal, mae'r rheoliadau'n dileu'r gofyniad presennol i roi prawf bod hawl, bob pum mlynedd, cyhyd ag y bo'r BBC yn fodlon bod y prawf a ddarparwyd yn y lle cyntaf yn ddigonol.

## Ffi'r drwydded deledu y tu hwnt i 2007

Y ffi bresennol am drwydded liw yw £135.50 a £45.50 am drwydded ddu a gwyn. Cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd cost y drwydded yn codi'n flynyddol o 3% am ddwy flynedd gyntaf y cytundeb newydd a 2% ym mlynyddoedd tri, pedwar a phump. Bydd cynnydd yn y chweched flwyddyn (2012-13) o hyd at 2%, yn dibynnu ar adolygiad pellach yn nes at yr amser.

## Y darlun Ewropeaidd

Mae gan nifer o wledydd Ewropeaidd eraill system ddarlledu gyhoeddus, yn ogystal â gorsafoedd radio a theledu â pherchnogion preifat. Mae'r BBC yn aelod o Gymdeithas Ffïoedd Darlledu a sefydlwyd yn 2006, sy'n cynnwys sefydliadau ledled Ewrop sy'n casglu ac yn gorfodi ffi'r drwydded yn eu gwledydd unigol. Mae pob strwythur rheoli trwyddedu'n wahanol; er enghraifft yn Yr Almaen nid yw'r di-waith yn talu am drwydded teledu. Ond wrth gwrs, ceir nodweddion sy'n debyg rhwng y gwledydd amrywiol gan gynnwys yr angen i reoli osgoi.

* Er mwyn bod yn gymwys am drwydded deledu ratach ARC, mae'n rhaid i rywun fod yn byw mewn cynllun llety cymwys ac wedi ymddeol a thros 60 mlwydd oed neu'n anabl.

## Y darlun Ewropeaidd

Cyfraddau osgoi a ffïoedd trwyddedau (mewn ewros) ledled Ewrop (ffynhonnell: Cymdeithas Ffïoedd Darlledu, y ffigurau diweddaraf sydd ar gael; mae'r dyddiadau'n amrywio)


| Gwlad | Amcangyfrif o'r Gyfradd Osgoi % | Ffïoedd Trwyddedau € |
|---|---|---|
| Awstria | 3.0 | 243.84* |
| Y Weriniaeth Tsiec | 6.0 | 72.00* |
| Denmarc | 6.2 | 288.49* |
| Y Ffindir | 8.9 | 208.15 |
| Yr Almaen | 8.0 | 204.36* |
| Yr Eidal | 23.0 | 99.60* |
| Iwerddon | 15.1 | 158.04 |
| Norwy | 11.5 | 254.79 |
| Sweden | 11.0 | 211.56 |
| Y Swistir | 4.1 | 285.00 |
| Y DU | 5.1 | 199.20 |

* Yn dynodi trwydded deledu a radio ar y cyd

# Gwneud y gorau o refeniw ffi'r drwydded

## Dyraniad yn ôl dosbarth cymdeithasol o eiddo yn y DU a ddylai gael trwydded

Dyraniad yn ôl dosbarth cymdeithasol o 25.9m eiddo a oedd angen trwydded ar 31 Mawrth 2007




AB **21.5%**
C1 **29.4%**
C2 **14.9%**
D **17.4%**
E **16.8%**

Mae Trwyddedu Teledu yn gweithio i sicrhau bod gymaint ag y bo modd o refeniw ffi'r drwydded yn cael ei gasglu. Gwneir hyn drwy gyfuniad o gadw'r gost o gasglu'n isel a pharhau i chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol i ostwng yr osgoi. Mae'r gost gyfunol o gasglu ac osgoi ar y lefel isaf erioed.

Mae canran yr osgoi i fyny o 4.7% ym Mawrth 2006 i 5.1% ym Mawrth 2007. Mae'r cynnydd hwn yn cyfateb i incwm rhagdybiadwy o £14m ac mae yn ganlyniad ffactorau demograffig yn rhannol. Bu'r cynnydd diweddar yn y boblogaeth mewn ardaloedd trefol a thai aml-ddeiliaid yn bennaf, lle mae'r achosion o osgoi yn uwch a mwy o'r boblogaeth heb gartrefi parhaol.

**Cyfradd osgoi a chostau casglu**

| | 02/03 | 03/04 | 04/05 | 05/06 | 06/07 |
|---|---|---|---|---|---|
| | % | % | % | % | % |
| Cyfradd osgoi* | 5.7 | 5.0 | 4.6 | 4.7 | 5.1 |
| Costau casglu | 5.5 | 5.4 | 5.2 | 4.9 | 4.1 |
| Cyfanswm | 11.2 | 10.4 | 9.8 | 9.6 | 9.2 |

* Osgoi hanesyddol, wedi ei ailddatgan drwy ddefnyddio'r tybiaethau diweddaraf

## Cost casglu

Cost casglu yn 2006/07 oedd £132.6m sy'n ostyngiad fel canran o'r incwm o 0.8% (i lawr o 4.9% yn 2005/06 i 4.1% yn 2006/07). Cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r gostyngiad drwy arbedion yn y gwasanaethau dros-y-cownter a chostau marchnata, gan ddangos gwelliant o ran effeithlonrwydd a gwerth am arian. Mae hwn yn ganlyniad sylweddol o ystyried bod y costau fel cyfran o'r incwm yn 6.2% pan gymerodd y BBC y cyfrifoldeb dros gasglu ffi'r drwydded ym 1991, a bod cyfanswm y trwyddedau mewn grym i fyny 25% dros yr un cyfnod (19.6m i 24.5m).

**Costau casglu Trwyddedu Teledu**

| | 2007 £m | % |
|---|---|---|
| Costau casglu gan gynnwys canolfannau galw, gweithlu yn y maes, canfod a gwasanaethau tros y cownter | 98.9 | 74.6 |
| Dibrisiant y systemau newydd | 0.8 | 0.6 |
| Cyfathrebu gan gynnwys negeseuon atgoffa ac ymgyrchoedd rhoi gwybodaeth | 19.0 | 14.3 |
| Costau postio | 10.7 | 8.1 |
| Gweinyddu a rheoli cytundebau | 3.2 | 2.4 |
| **Cyfanswm** | **132.6** | **100** |

## Cynlluniau talu

Nod Trwyddedu Teledu yw ei gwneud yn hawdd i bobl dalu a chynnig nifer o gynlluniau talu a chyfleusterau. Mae taliadau Debyd Uniongyrchol yn parhau i dyfu.

Y llynedd, cyflwynodd Trwyddedu Teledu gerdyn cynilo yn lle stampiau cynilo Trwyddedu Teledu. Gellir cynilo ar gyfer cost trwydded drwy ddim ond mynd â cherdyn cynilo i unrhyw gyfleuster PayPoint er mwyn ychwanegu at y taliadau mewn arian parod neu trwy gerdyn debyd. Mae'r cerdyn yn fwy diogel na'r stampiau gan fod cofnod o'r cynilo yn cael ei gadw ar system gyfrifiadurol ganolog Trwyddedu Teledu. Yn wahanol i'r stampiau, os collir y cerdyn ni chollir y cynilion.

Tros y flwyddyn gwerthwyd 1.2m o drwyddedau dros y we, sy'n 13.3% o'r gwerthiant (ac eithrio Adnewyddiadau Debyd Uniongyrchol a gwerthiant Dros 75 oed) o'i gymharu â gwerthiant y flwyddyn flaenorol o 659,000 (6.6% o'r gwerthiant).

**% y trwyddedau a gasglwyd drwy sianel daliadau (ac eithrio dros 75)**

| | **02/03** | **03/04** | **04/05** | **05/06** | **06/07** |
|---|---|---|---|---|---|
| Debyd Uniongyrchol* | 52.9 | 55.7 | 58.2 | 60.9 | 64.7 |
| Cardiau Credyd gan gynnwys Goldfish | 4.1 | 3.9 | 4.2 | 4.3 | 7.0 |
| Siec/Arian Parod: | | | | | |
| – Post | 5.2 | 4.7 | 4.3 | 4.0 | 6.7 |
| – Cownter Swyddfa Bost Cyfyngedig gan gynnwys stampiau cynilo | 31.8 | 29.3 | 26.7 | 24.0 | 5.4 |
| – Cerdyn cynilo (cyflwynwyd ym Mai 2006)** | | | | | 2.6 |
| – PayPoint | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.2 | 7.0 |
| – Mynediad Taliadau Hawdd a Chynllun Arian Misol | 5.8 | 6.1 | 6.3 | 6.4 | 6.4 |
| – Bancio Gartref | 0.1 | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.2 |
| | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |

* Blynyddol, chwarterol, misol. Telir y misol 6 mis o flaen llaw a 6 mis ar ôl, felly mae pobl yn prynu 1.5 trwydded yn y 12 mis cyntaf.


** Cymerodd cerdyn cynilo Trwyddedu Teledu le'r stampiau cynilo. Nid oedd modd casglu'r data yn y blynyddoedd blaenorol pan ddefnyddid stampiau cynilo.

## Pwy sy'n osgoi talu?

Mae osgoi talu'n digwydd ar draws yr holl grwpiau cymdeithasol-economaidd:

### Proffil y rhai sy'n osgoi talu am drwydded deledu

Dosbarthiad, yn ôl graddio cymdeithasol, yr 1.3m eiddo nad oedd wedi'u trwyddedu ar 31 Mawrth 2007




AB **20.1%**
C1 **29.1%**
C2 **13.6%**
D **18.9%**
E **18.3%**

Yn ôl Bwrdd Ymchwil Cynulleidfa'r Darlledwyr (BARB), ar hyn o bryd mae 98% o aelwydydd yn berchen eu teledu eu hunain.

# Gwybodaeth a gorfodaeth

**Anne Kinghorn,**
Gwasanaeth Cynnal i Geiswyr Lloches y YMCA, Glasgow
"Rwy'n croesawu gwaith Trwyddedu Teledu yn paratoi deunyddiau amlieithog. Mae cymysgedd o amryw genhedloedd yn fwyfwy nodweddiadol o'r Alban ac mae'n bwysig ystyried hyn wrth baratoi deunyddiau at ddefnydd cyhoeddus."

**Kevin Higgins,**
Pennaeth Polisi, Cyngor YG
"Rydym yn croesawu mentrau Trwyddedu Teledu yn darparu gwybodaeth glir ar gyfer cwsmeriaid ynglŷn â'u dewisiadau ar gyfer talu, a gobeithiwn y bydd y gwasanaeth atgoffa trwy neges destun o fudd i'r rheiny yng Ngogledd Iwerddon sy'n talu'n wythnosol, barhau'n drwyddedig ar gynllun sy'n caniatáu iddyn nhw dalu yn y ffordd sydd fwyaf addas i'w hamgylchiadau."

Defnyddir nifer o ddulliau er mwyn cyfleu'r angen am drwydded, ffyrdd o dalu a'r hyn sy'n disgwyl y rheiny sydd angen trwydded ond nad ydynt yn gwneud yr hyn a ddylent:

## Marchnata a hysbysebu

- Mae Trwyddedu Teledu yn defnyddio amrywiaeth o gyfryngau er mwyn cyfathrebu, megis llythyrau, posteri, hysbysebu dros y Rhyngrwyd a hysbysebion dros y radio a'r teledu. Golyga hyn fod modd cyfathrebu ag ystod eang o bobl o'r rhai sydd yn talu i'r rhai sydd yn osgoi talu.

- Ni fydd rhai ddim ond yn talu ffi'r drwydded pan gânt eu hatgoffa o'r gofyniad cyfreithiol i gael trwydded iawn a'r gosb y gallent ei hwynebu petaent yn cael eu dal yn osgoi talu. Dengys ymchwil gan y BBC fod naw allan o ddeg yn credu ei bod yn briodol i Trwyddedu Teledu amlygu negeseuon gwrth-osgoi. Mae naws negeseuon marchnata yn gyson â'r hyn a ddefnyddir gan gyrff eraill sydd â nod debyg megis torri lawr ar osgoi treth car a thwyllo ynghylch budd-dal.

- I gydfynd â'r negeseuon hyn ceir amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth bod dulliau talu hwylus ar gael, megis Debyd Uniongyrchol.

- Mae'r ymateb i'r holl gyfathrebiadau'n cael ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol a phriodol ac yn dangos adenillion cadarnhaol ar y buddsoddiad a wnaed.

## Cynhwysiad cymdeithasol a rhaglenni addysgol

- Mae gweithio'n agos gyda sefydliadau budd-ddeiliaid er mwyn hyrwyddo'r angen am drwydded ac i roi cyngor am gynlluniau talu hawdd yn allweddol. Gweithiodd Trwyddedu Teledu gyda 40 sefydliad yn ystod y flwyddyn gan gynnwys: Sefydliad y Cynghorwyr Arian, Cyngor ar Bopeth, Money Advice Scotland, Cyngor Yswiriant Gwladol, Y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches, Ffederasiwn Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol Prydain, Adran Weithredol Tai YG, RNIB, Age Concern a Help the Aged.

- Derbyniodd Trwyddedu Teledu 23 ardystiad gan fudd-ddeiliaid, gan sicrhau copi yn 17 o'u cylchlythyrau a gwefannau, a bod yn bresennol mewn pedair cynhadledd genedlaethol. Trwy ddosbarthu dros 100,000 o eitemau llenyddiaeth cynhyrchwyd dros 1,180 o alwadau i rif canolfan-galw Cynhwysiad Cymdeithasol.

- Mae rhaglen gyswllt benodol yn cael ei rhedeg ganTrwyddedu Teledu ar gyfer ynadon, staff y llysoedd a sefydliadau perthnasol. Mae hyn yn rhoi gwybod i'r llysoedd ynglŷn â'r ymgyrchoedd amrywiol sy'n addysgu pobl ynglŷn â'r ffyrdd niferus o dalu fel mai'r cam terfynol pan fo popeth arall wedi methu, fydd cael eu herlyn.

- Anfonir y cylchlythyr cysylltiadau cymunedol "Yn Gryno" at bob cysylltiad budd-ddeiliaid bob chwarter, gyda'r diweddaraf am weithgareddau Trwyddedu Teledu.

- Mae Trwyddedu Teledu yn amlieithog. Mae'n paratoi llenyddiaeth mewn 21 iaith ac yn cynnal gwasanaeth cyfieithu sy'n galluogi rhai sy'n galw i gyfathrebu mewn 150 o ieithoedd.

## Gorfodi a chanfod

- Mae ymweliadau'n rhan hanfodol o werthiant a gorfodi a'r llynedd cafwyd 3.5m ymweliad o'i gymharu â 2.9m ymweliad yn 2005/06.

Wrth ymweld fe fydd swyddogion ymholiadau:
- yn profi pwy ydynt drwy ddangos cerdyn adnabod ac, o ofyn iddynt, yn rhoi rhif ffôn er mwyn cadarnhau hyn
- yn gwrtais bob amser
- yn dweud pam maent yn ymweld
- ddim ond yn mynd i mewn i eiddo ar ôl derbyn caniatâd. Os na cheir caniatâd, mae'n bosibl y defnyddir faniau canfod neu wneud cais llys er mwyn cael gwarant chwilio
- yn cynnal ymholiadau'n gadarn a theg a chan darfu cyn lleied ag y bo modd
- byth yn bygwth na bychanu
- yn dod â'r ymholiad i ben os gofynnir iddynt ymadael
- pan fo angen, yn cymryd datganiad yn unol â'r gyfraith ac yn gofyn i'r sawl sy'n cael ei gyfweld ei lofnodi fel cofnod cywir o'r cyfweliad
- yn gwneud yn siŵr bod y sawl sy'n cael ei gyfweld yn gwybod beth fydd canlyniad cymryd datganiad

- Mae offer canfod yn ddrud i'w defnyddio a chaiff ei defnyddio'n ddoeth dim ond pan fo pob llwybr arall (sy'n fwy cost effeithiol) wedi methu. Defnyddir offer yn bennaf ar gyfer eiddo sydd wedi dweud nad oes ganddynt set deledu ac aelwydydd lle gwrthodwyd mynediad i swyddog ymholiadau.

  Ceir rheoli llym ar y defnydd o offer canfod o dan Ddeddf Rheoli Pwerau Ymchwilio 2000.

- Nid oes hawl mynediad gan Trwyddedu Teledu a bydd swyddogion yn mynd i mewn i aelwydydd dim ond gyda chaniatâd y sawl sy'n byw yno. Yr unig eithriad fydd pan fo Trwyddedu Teledu wedi cael gwarant chwilio. Defnyddir y rhain mewn achosion prin os oes gennym dystiolaeth o osgoi a bod y cwsmer yn gwrthod caniatáu mynediad.

**Pam mae Trwyddedu Teledu yn cymryd yn ganiataol bod angen trwydded ar bawb pan nad yw rhai aelwydydd yn defnyddio teledu? Mae'n siŵr bod ffordd well i reoli hyn na'r agwedd 'euog hyd nes y profir yn ddieuog'?**

Pan fo rhywun yn dweud wrthym naill ai nad oes teledu ganddynt neu nad ydynt yn ei ddefnyddio ar gyfer derbyn signalau sy'n cael eu darlledu, rydym yn ymweld â hwy er mwyn cadarnhau hyn.

Bwriad yr ymweliad yw canfod y rhai nad ydynt mewn gwirionedd yn defnyddio teledu, fel y gallwn gael cyn lleied ag y bo modd o gysylltiad â hwy yn y dyfodol. Mae'r arfer hwn, sy'n cael ei gynnal gyda sensitifrwydd ac yn broffesiynol, er lles pob ochr. Unwaith i ni gadarnhau ein cofnodion, byddwn yn atal ein hymholiadau am sawl blwyddyn yn achos y rheiny nad oes arnynt mewn gwirionedd angen trwydded.

Dangosodd ymchwil a wnaethpwyd gan y BBC fod dros 80% o'r rheiny yn yr arolwg nad oeddent yn defnyddio teledu ac a dderbyniodd ymweliad cadarnhau gan Trwyddedu Teledu, ei bod hi'n rhesymol ymweld er mwyn cadarnhau nad oedd teledu yn cael ei ddefnyddio.*

Y llynedd canfuwyd bod 40% o'r rhai a oedd yn datgan nad oedd ganddynt deledu, yn defnyddio un, a bod felly arnynt angen trwydded, pan aethom i mewn i'r eiddo.

* Ymchwil DONT (Declaration of no television), Haf 2005

**David Sinclair,**
Rheolwr Polisi Help the Aged
"Rydym yn gweithio bob blwyddyn gyda miloedd o'r hen bobl sydd fwyaf o dan anfantais, â llawer ohonynt yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd ar incwm cyfyng iawn. Yn y cyd-destun hwn croesewir y drwydded rad ac am ddim ar gyfer rhai dros eu 75 oed a chefnogwn yn llwyr ymdrechion Trwyddedu Teledu i godi'r ymwybyddiaeth ohono."

**Rene Kinzett,**
Cynghorydd yn Abertawe
"Rydym yn falch o gael gweithio gyda Trwyddedu Teledu i atgoffa holl bobl Abertawe am y gofynion cyfreithiol iddynt gael trwydded. Byddem yn annog unrhyw un sy'n osgoi ffi'r drwydded i gael un cyn iddynt gael cnoc ar y drws."



Defnyddio canfodydd i'w ddal yn y llaw.

# Gwasanaeth cwsmeriaid

### Canolfannau galw sydd wedi ennill Gwobrau

Mae canolfannau galw Trwyddedu Teledu Capita yn Darwen, Swydd Gaerhirfryn a Bryste wedi cadw'r dyfarniad Cymdeithas Cyswllt Cwsmer (CCA) a enillwyd y llynedd. Yn ychwanegol i hyn, enillodd canolfan galw Darwen gydnabyddiaeth y diwydiant am "Yr Arfer Gorau wrth Drin Amrywiaeth" ac enillodd John Foster, asiant canolfan galw, "Asiant Galwadau'r Flwyddyn" y CCA.

### Galwadau mewn ieithoedd dramor

Canran y galwadau mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg yn y chwe mis yn arwain at 31 Mawrth 2007 (cyfanswm o 1,042 galwad)

| Iaith | % |
|---|---|
| Pwyleg | 26.0 |
| Portiwgaleg | 8.3 |
| Urdu | 7.6 |
| Punjabi | 6.8 |
| Bengali | 6.6 |
| Tyrceg | 5.7 |
| Ffrangeg | 4.1 |
| Somali | 3.6 |
| Sbaeneg | 3.0 |
| Rwseg | 2.8 |
| Eraill | 25.5 |

Yn ein hymwneud â'r cyhoedd byddwn:
- bob amser yn gwrtais
- yn ateb pob cyfathrebiad yn gyflym ac yn gwrtais, gan anelu at ei gael yn gywir y tro cyntaf
- yn cynnal egwyddorion Deddf Diogelu Data1998
- yn ymddwyn yn deg, yn gyfiawn a chyson tuag at bawb yn ôl amodau Deddf Gyfathrebu 2003 a Rheoliadau Cyfathrebu (Trwyddedu Teledu) 2004
- yn prosesu cwynion yn gyflym ac yn deg ac yn cynnal ymholiadau trylwyr a theg
- lle bo'n ymarferol, yn cyfathrebu yn yr iaith a'r fformat o ddewis y cwsmer
- yn rhoi gwybod i bobl am y ffordd fwyaf addas iddynt dalu
- yn ceisio gwella a chynnal ansawdd ein gweithgareddau'n rheolaidd

Arhosodd bodlonrwydd cwsmeriaid yn uchel gydol y flwyddyn gyda chyfartaledd cyfunol "yn fodlon" ac "yn fodlon iawn" y rheiny yn yr arolwg yn sefyll ar 88%.

Trafodwyd dros 11.7m o alwadau gan ganolfannau galwadau Trwyddedu Teledu Capita o'i gymharu â 9.2m yn y flwyddyn flaenorol, sy'n gynnydd o 27%. O'r galwadau a atebwyd, atebwyd 6.9m (59%) gan gynghorwr gwasanaeth cwsmer a 4.8m (41%) drwy amrywiaeth o wasanaethau hunangymorth megis cyffwrdd-sain a gwasanaethau ffôn adnabod llais (o'i gymharu â 27% yn 2005/2006).

### Cwynion

Rydym yn cymryd cwynion o ddifrif a phob amser yn ceisio eu datrys ar y cyfle cyntaf.

- Cafwyd 31,390 o gŵynion y llynedd, sy'n gynnydd blynyddol o 8,065 (35%). Roedd y cyfnod hwn yn cynnwys trosglwyddo oddeutu 9m o gwsmeriaid a oedd yn defnyddio'r Swyddfa Bost i gyfleusterau PayPoint neu ddulliau eraill o dalu. Mae hyn yn 0.016% o gyfanswm y trwyddedau sydd mewn grym ac yn cymharu'n dda â sefydliadau tebyg.*

### Cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod Trwyddedu Teledu yn bodloni ei oblygiadau cyfreithiol o ran y dyletswyddau a nodwyd yng Nghynlluniau Cydraddoldeb Hil, Rhyw ac Anabledd y BBC, datblygwyd cynlluniau gweithredu ar gyfer Trwyddedu Teledu a fe'u monitrir yn rheolaidd.

Mae'r cynlluniau'n galluogi Trwyddedu Teledu i ganfod, rhannu a hyrwyddo'r arfer a'r ymwybyddiaeth orau o ran materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn derbyn adroddiad am y datblygiadau yng ngweithredu'r cynlluniau gwaith gan Uned Amrywiaeth y BBC. Mae'r cynlluniau ar gael oddi ar: www.bbc.co.uk/info/policies/diversity.shtml

### Ar-lein

Y llynedd fe wellwyd gwefan Trwyddedu Teledu er mwyn ei gwneud yn haws i'w defnyddio. Cyfrannodd y wefan ar ei newydd wedd at gynnydd blynyddol o 53% i'r gwerthiant ar-lein.

Yn ogystal cyflwynwyd OneVu Bill Manager y llynedd gan ganiatáu i bobl dalu drwy fancio ar-lein.

### Trwydded drwy neges e-bost

Y llynedd cofrestrodd 273,000 i dderbyn eu trwyddedau ar-lein. Yn lle aros i gael trwydded wedi ei argraffu a'i phostio gellir ei derbyn dros yr e-bost yn awr a cheir manylion am y ffordd i wneud hyn ar-lein ar www.tvlicensing.co.uk

Cam nesaf y datblygiad fydd ymestyn y mathau o gyfathrebu ar e-bost, er enghraifft negeseuon atgoffa, er mwyn arbed costau a chodi'r nifer sy'n eu defnyddio.

* Yn achos y diwydiant dŵr, mae'r ffigur ar gyfartaledd yn 0.62% y sail cwsmer cyfan.

# Hoffem glywed gennych

Mae arnom eisiau clywed unrhyw farn sydd gennych ynghylch yr adolygiad blynyddol hwn neu am Trwyddedu Teledu yn gyffredinol.

Os ydych yn aelod o'r cyhoedd, ffoniwch 0844 800 6790 neu ysgrifennwch at Trwyddedu Teledu / TV Licensing, Bristol, BS98 1TL.

Os ydych yn cysylltu â Trwyddedu Teledu ar ran sefydliad neu yn broffesiynol, ewch drwy'r Swyddfa Ymgyrchoedd ar 020 7544 3116 neu anfonwch neges e-bost i campaignoffice@tvlicensing.info.

Sylwch, nad yw'r swyddfa ymgyrchoedd yn gallu ymdrin ag ymholiadau oddi wrth gwsmeriaid unigol.

Mae copïau o'r adolygiad hwn ar gael mewn fformatau eraill trwy ffonio 0844 800 6790 neu ein cyfleuster minicom ar gyfer pobl fyddar neu drwm eu clyw ar 0844 800 6778.

## Yr hyn mae eich trwydded yn ei ddarparu

Telir am y BBC yn uniongyrchol drwy drwydded deledu pob aelwyd. Mae hyn yn ei alluogi i gynnal amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus poblogaidd ar gyfer pawb, yn annibynnol ar hysbysebwyr, budd-ddeiliaid neu fuddiannau gwleidyddol. Defnyddiwyd y BBC gan 92.5% o boblogaeth y DU bob mis yn 2006/2007.


Mae'r BBC yn darparu wyth sianel deledu, 10 gorsaf radio, dros 50 gwasanaeth teledu a radio lleol, bbc.co.uk a lansiwyd y gwasanaeth teledu ar-gais, y BBC iPlayer, ym mis Gorffennaf 2007.

Am fwy o wybodaeth ewch i:
www.bbc.co.uk/annualreport/

## Y modd rydym yn gwario ffi'r drwydded

Yn 2006/2007 roedd trwydded teledu lliw pob aelwyd yn costio £10.96 y mis. Ar gyfartaledd dyma'r modd y gwariodd y BBC eich arian:

### Cyfradd fisol gwariant ffi'r drwydded




- A Wyth sianel deledu genedlaethol a rhaglenni rhanbarthol yn ychwanegol **£7.54**
- B Pedwar deg o orsafoedd radio lleol **75p**
- C Deg gorsaf radio genedlaethol **£1.17**
- D Costau casglu darlledu a thrwydded deledu **£1.01**
- E Dros 240 o wefannau ar bbc.co.uk **49p**

Ffynhonnell:
www.bbc.co.uk/info/licencefee

Argraffwyd yr adroddiad hwn ar bapur Revive 100 Uncoated sy'n cynnwys lleiafswm o 100% o ffibr ôl-ddefnyddiwr wedi'i ddad-incio a'i ailgylchu a chaiff ei ardystio yn annibynnol yn ôl Cyngor Stiwardiaeth Coedwig.

Cynhyrchwyd y papur hwn mewn melin gydag achrediad ISO 9002 ac ISO 14001.